

gan Leyshon Williams.

Er mwyn dangos mai rhan o'r festri yw'r llwyfan, gwell fydd defnyddio wings yn lle box scene. Ar ganol y llwyfan (yn y cefn ceir tair mainc, fel a welir mewn festri. Ar y chwith, yn agos i ffrynt y llwyfan, y mae lle tan. Y mae'r tair adain ar letraws ar y dde i'r llwyfan, a dwy ar y chwith (o safbwynt y chwaraewyr). Pan gyfyd y llen gwelir JACOB (hen ddyd araf ei symud ond ffraeth ei dafod) yn cerdded o'r lle tan a "blowar" yn ei law. Ar ol mynd cam neu ddau i'r dde, clywn efin siarad ag ef ei hun.

- JACOB : Os na gynni di nawr, cer allan i gynllw'n a thi. Weles i ddim tan mor.....(YN AROS AC YN TROI I EDRYCH AR Y TAN).... Diain i, mae'n mynd allan eto! (YN MYND ON OL I'R LLE TAN AC YN GOSOD Y BLOWAR ETO). Nhw a'u dramau tragwyddol. Byddai'n llawer ffitiach iddyn nhw..... (Y MAE DRWS Y FESTRI - AR Y DDE - YN CAEL EI YSGWYD YN GRYP)
- JACOB : (YN GWEIDDI) Hei! Ganbwyll a'r drws 'na!
- LLAIS : (WINNI) Dewch i agor e' te!
- JACOB : Pwy? Fi?..... Mae e' ar agor.
- WINNI : (YN YSGWYD ETO) Nagyw!
- JACOB : Rhowch gic iddo fe. (CLYWIR Y GIC, AC YNA, Y DRWS YN AGOR YN SYDYN)
- JACOB : Gadewch e' ar agor nawr. Oes eisie gole arnoch chi 'nol 'na?
- WINNI : (YN DOD YN NES) : Nagos! (TRY JACOB YN OL AT Y TAN. DAW WINNI I MEWN, AC AR OL CYRRAEDD CANOL Y LLWYFAN MAE YN EISTEDD AR UN O'R SETI)
- WINNI : Fi yw'r cyntaf, Jacob?
- JACOB : (YN SWRTH) : Ie..... Be' sy' 'ma heno?
- WINNI : Practis.
- JACOB : O..... Y cor, ife?
- WINNI : Nage - y ddrama.
- JACOB : (YN SARCASTIG) : O - practis drama! (YN SWRTH) Wel, pam gynllw'n na ddywedodd rhywun wrtho i fod practis?
- WINNI : Ond, Jacob.....
- JACOB : Dim ond pum munud yn ol y clywais i am dano. A dim ond digwydd clywed wnes i pryd hynny. Beth am y tan 'ma? Y'ch chi'n credu fod tan yn gallu cynneu heb..... (ERBYN HYN Y MAE JACOB WEDI TROI YN OL AT Y TAN). (Rarswyd fawr, - fe aif e'allan eto! (YN SYMUD YN OL AT Y TAN)
- WINNI : Roedd William Tomos wedi addo dweud.....
- JACOB : William Tomos! 'Does gan William Tomos ddim digon o sens i ddweud wrtho'i hunan. (A'I BEN YN Y TAN) Beth yw'r ddrama i fod eleni?
- WINNI : "Yr Alanas".
- JACOB : (YN TROI) O..... Yr Alanas!..... Mae'n enw crand.
- WINNI : Ydi, - ma'r enw'n olreit.
- JACOB : Gwaith pwy yw hi?

WINNI : (MEWN LLAIS DI-OBAITH) William Tomos.

JACOB : Beth? Wel, ar 'y ngair i! Oes rhaid i chi chwarae dramas William Tomos o hyd?

WINNI : Ond, Jacob, mae'n aelod o'r capel a.....

JACOB : Be' sy' gan hynny i wneud a'r peth? Rwy i'n aelod, - wel, 'rym ni i gyd yn aelodau, ond 'dym ni?

WINNI : Ond, Jacob.....

JACOB : Bah! Welodd neb na phen na chwt i un o ddramas William Tomos!

WINNI : Naddo, 'rwy'n gwybod, ond.....

JACOB : Testun sbort oedd y perfformiad dwetha, a.....

WINNI : Beth!

JACOB : Nawr, nawr, - nid amdanoch chi 'rwy'n siarad! 'Roech chi'n olreit, yn- yn-yn-naturiol fel! Ond am y ddrama! Talp o

WINNI : Hist, Jacob! Ma' 'na rywun yn dod!

JACOB : Nagoes, nagoes! Talp o

WINNI : (YN EDRYCH YN OFNUS I'R DDE) : Ond, Jacob.....!

JACOB : Mae gen i hawl i ddatgan fy marn. Talp o nonsens o'r dechre' i'r diw..... (SWN YN DOD O'R DDE)

WINNI : (YN DAWEL) Dyma fe!

JACOB : O! (YN TROI YN OL AT Y TAN) Gallwn i fod yn son am y bregeth neu.....

WINNI : (YN NEWID) O, Wil, sy' 'na!

JACOB : (YN TROI) Wil? O, wel - tapp o nonsens o'r dechre i'r diwedd!

WIL : (YN DOD I'R GOLWG) O?

JACOB : Ma' bron pawb yn marw yn nramas William Tomos!

WIL : (YN CROESI AC YN EISTEDD) Rwy i'n mynd yn ffast, 'ta beth.

JACOB : Bob tro mae e' am gael gwared un o'r zymeriadau, mae e'n 'i ladd e! Slaughter House, myn brain i - a'r llwyfan yn ddim byd on celfi a chyfff!

WIL : Ond be' allwn ni wneud?

JACOB : Dwedwch wrtho'ch bod chi wedi cael llond bola ar 'i ddr-

WINNI : o - fe dorra'i galon!

JACOB : (YN SARCASTIG) O, ie, wrth gwrs! Ond 'drychwch ar Gaersalem. Yn chwarae dramas da, ac yn eich maeddu chi bob tro! Rwy' wedi dweud o'r blaen, ac fe ddweda' i eto - os 'ych chi am gael shap ar bethe yma, fe fydd yn rhaid i chwi gael gwared ar William T..... (SWN RHYWUN AR Y DDE) Hylo - pwy sy' 'na?..... O, dyma fe!

(TRY JACOB YN OL AT Y TAN)

JACOB : Mae'n bryd iti gynneu, hefyd!

(DAW WILLIAM TOMOS I MEWN A'I GOPI DAN EI FRAICH)

W. TOMOS : (YN AWDURDODOL) Ah! Ma'r tan wedi'i gynneu 'rwy'n gweld! Nos da, chi'ch dau.

JACOB : Ydi - mae e' wedi'i gynneu, - ond 'does dim diolch i chi, William Tomos.

W. TOMOS : O, 'rwy't ti yma, wyt ti?

JACOB : (YN NESU ATO) Pam na ddweddech chi wrtho i fod practis i fod heno?

- W. TOMOS : (YN SYMUD AT Y TAN) Pwy all feddwl am beth bach dibwys felna, a'i ben yn llawn o'r gwaith sydd o'i flaen? Symudwch y blowar 'ma!
- JACOB : (YN CYMRYD Y BLOWAR) : O, peth bach dibwys, iefe? (YN TROI AC YN MYND I'R DDE) 'Chewch chi ddim tan o gwbl y tro nesa'. (YN TROI CYN MYND O'R GOLWG) Faint o amser fyddwch chi heno?
- W. TOMOS : Byddwn yma hyd ddiwedd y practis.
- JACOB : O!..... Felly? Wel, cofiwch, rwy i'n mynd i'r gwely am ddeuddeg! (YN MYND I'R DDE)
- W. TOMOS : Ble ma'r lleill?
- WIL : Mae'n gynnar eto.
- W. TOMOS : Yn gynnar!
- WIL : Iddyn nhw, rwy'n feddwl.
- W. TOMOS : Mae bron a bod yn hanner awr ar ol amser. Os na 'dyn nhw'n dod mewn pum munud..... (SWN NIFER O BOBOL AR Y DDE : Hylo Jacob. Shwd ma'r tan? etc. etc.)
- W. TOMOS : A. Dyma nhw.
- WINNI : Beth am gael practis o flaen y tan heno, Mr. Tomos?
- W. TOMOS : 'Rarswyd! Na! Gwastraff amser - dim ond clebran a-a-a-a chlebran! Na, y llwyfan amdani!
(DAW Y LLEILL I MEWN. DIGON O SWN A FFYS)
- TWM : (YN SYMUD AT Y TAN) A! Dyma'r stwff. Fe wnaiff yr hen Jacob stocer ardderchog yn y byd nesa'. Tyn y sêr 'na mlaen, Wil, - ie honna! Symudwch, William Tomos, i ni gael y sêr 'ma o flaen y tân!
- W. TOMOS : Na, na! Does 'na ddim eistedd o flaen y tân i fod heno.
- TWM : Beth! Dim eistedd o flaen - y - y ! Ond mae'n oer, William Tomos.
- W. TOMOS : Fe ddylset fod wedi brysio i'r practis, 'machgen i. Fe gei di dy wres yn ol 'nawr, wrth actio.
- TWM : Pum munud fach.
- W. TOMOS : Na, dim munud. Ma' 'na dros hanner awr wedi mynd yn barod. Os y'ch chi am eistedd wrth y tân - dewch yn gynnar.
- HARRI : Clywch! Clywch! Ymlaen a nhw, Mr. Tomos. Yn yr ail act rwy' i'n dechre.
- TWM. : Ie, ie. Ma' hynny'n olreit i ti. Ond beth amdana' i? Rwy' i yn yr holl 'blinkin' lot."
- DIC : 'Rwy'n cynnig ein bod ni'n dechre gyda ACT II.
- HARRI : Act II? Ond, fachgen, Act I yw'r act gynta' bob amser.
- DIC : Ie, ar y noson. Ond am heno fe allwn wneud fel y mynnwn ni.
- HARRI : Wyt ti am wneud cawl o'r ddrama - trwy ei thynnu hi'n racs felna?
- W. TOMOS : Nawr, 'nawr, gwrandewch.....
- HARRI : Gadewch chi hyn i fi, William Tomos. Fe setla i hyn.
- TWM : Rho'r peth i'r fôt te.
- LLEISIAU : Ie, dyna 'fe. Rhowch e' i'r fot, etc. etc.
- HARRI : O, ie, a pha siawns sy' gen i mewn fôt? Rych chi bron i gyd yn Act I. Eisie sit down fach, iefe?
- TWM : Beth wyt ti am gael, 'te?
- HARRI : Eisie gweld y ddrama yn dechre' rwy i.

DIC : Er mwyn i ti gael sit down fach.

LLEISIAU : O, rhowch y peth i'r fôt. Ie, dyna 'fe. Fôt, fôt etc.
(LLAWER O STWR. YN YSTOD Y SIARAD YMA Y MAE WILLIAM TOMOS WEDI CEISIO CAEL GWRANDAWIAD, OND NID OES NEB YN CYMRYD DIM SYLW OHONO. YN AWR Y MAE YN TORRI AR EU TRAWS)

W.TOMOS : (MEWN TYMER OFNADWY) Fôt? Beth gynllw'n sy' 'ma heno - lecsiwn? (DISTAWRWYDD)..... 'Falle y ca'-i - fel yr awdur a'r producer - ddweud gair?
(O'R CHWITH DAW SWN RHYWUN YN CHWARE EMYN AR Y PIANO)

W. TOMOS : (AR OL NODYN NEU DDAU) Yr arswyd fawr!

TOM : Be sy'? (YN DOD I'R GOLWG) Ydi e'n wrong eto?

W. TOMOS : (BRON YN WALLGOF) Yn-yn-yn-wrong?

TOM : 'Roedd e'n berffaith gen i 'rwythnos dwetha'. Un treial fach eto! (YN DIFLANNU. Y PIANO YN DECHRAU ETO)

W.TOMOS : Taw, fachgen - T-t-taw. (DISTAWRWYDD) 'Rwy't ti'n potsiach ar y piano 'na byth a beunydd. Rho dy feddwl ar y ddrama, wnei di?

TOM : (YN DOD I'R GOLWG) Ond 'rych chi heb ddechre eto.

W. TOMOS : Dechre? Fydd 'na ddim shâp ar ddechre' tra byddi di'n pwnio'r perfedd allan o'r offeryn 'na.

TOM : Yn Act II rwy' i'n dod i mewn.

W. TOMOS : O, wyt ti'n meddwl chware emynau drwy y ddwy act gynta? Ca'r piano 'na!
(A TOM O'R GOLWG. YMA - UN NODYN CRYF - A CHLAWR Y PIANO YN SYRTHIO)

W. TOMOS : Wel, 'nawr te, falle y cawn ni ddechre'. Fe ddechreuwn gyda Act I.

HARRI : Exactly! Dyna beth 'row'n i.....

W. TOMOS : Dyna ddigon o dy glebran di!

HARRI : Ond, William Tomos.....

W. TOMOS : Un gair arall, a-a-a mi ddechreuaf gydag Act II!
(DISTAWRWYDD)

W. TOMOS : Ydy' pawb yma? Atebwch eich enwau. John Roberts! (DIM ATEB)..... Ti yw John Roberts, onid e'?

DIC : Fi? Na! Dic Huws yw fy.....

W. TOMOS : Nage, nage. Nid Dic Huws wyt ti 'nawr. Anghofia dy enw iawn. Cofia mai John Roberts wyt ti. 'Rwyf am iti fyw y part - drwy'r dydd a phob dydd. Yn y gwaith, yn y tŷ - cymer ef i'r gwely gyda thi.

DIC : (YN SYML) 'Ry'm yn dri yn y gwely 'nawr.
(PAWB OND WILLIAM TOMOS YN CHWERTHIN)

W. TOMOS : Tawelwch! Paid a chellwair, 'machgen i! Dyma'r unig ffordd i roi portread teilwng o gymeriad. Byw y part! Cofia mai John Roberts wyt ti. Dyn pwysica'r dre' - dyn yn berchen miloedd o bunnau.....

DIC : O!

W TOMOS : Rhaid iti ddychmygu'r peth.

DIC : Rhaid, wir.

W. TOMOS : A bydda i yma i dy helpu di.

DIC : O! - Wel - y -beth am fenthyg swllt i ddechre'?
(CHWERTHIN)

W. TOMOS : Tawelwch! 'Rarswyd fawr, ydi golygfa' fel yma yn destun ~~chwerthin~~ chwerthin? Gwel'd bachgen mor hurt nes mehhu deall peth syml fel.....

DIC : Hei, William Tomos, llai o'r hurt 'na!
 W. TOMOS : Wyt ti yn deall, 'td?
 DIC : Wrth gwrs 'mod i!
 W. TOMOS : Pam wyt ti'n ymddwyn fel hyn 'te? Does gyda ni ddim
 mumud i'w gwastraffu, a.....
 WIL : Mr. Tomos!
 W. TOMOS : Ie?
 WIL : Mae gen i awgrym.
 W. TOMOS : Wel, cadw e' (YN TROI ODDI WRTHO)
 WIL : Nawr, nawr, am eich helpu chi 'rwy i!
 W. TOMOS : (YN LLYGAID AGORED) Fy helpu i? 'Dwy i ddim am help
 neb! Nid dyma'r ddrama gynta' i mi ddefnu. 'Rwy'n
 gyfarwydd a'r gwaith o A i Z. 'Rown i wedi sgrifennu
 drama cyn i dy eni di!
 TWM : Hon yw hi?
 W. TOMOS : Hon? Diain i!
 WIL : Nawr, nawr, dim ond cael joc roedd e'. Twm, gad hi nawr.
 William Tomos, gwrandewch. 'Does 'na neb yma am eich
 helpu a'r trefnu a'r.....
 W. TOMOS : Pwy yma all fy helpu? Y fi 'sgrifennodd y ddrama, a
 myfi, yn unig, sy'n i deall hi.
 DIC : Eitha reit.
 W. TOMOS : Beth wyt ti'n feddwl?
 WIL : Dim, William Tomos bach - dim! Ond dyma beth 'rown i
 am ddweud. 'Rych chi am wybod os yw pawb yma.....
 W. TOMOS : Ydw.
 WIL : Wel, 'ma 'na chwech yn y cast, a ma' 'na chwech yma.
 W. TOMOS : (AR OL ENNYD) O!
 WIL : Felly, 'does dim eisie galw'r enwau.
 W. TOMOS : Ma Y.....nagoes.
 WIL : Wel, beth am ddechre' te?
 W. TOMOS : Y.....ie, dyna fe. Ma 'na lawer gormod o siarad 'ma.
 Act I i ddechre!
~~(MAE PAWB YN SYMUD)~~
 W. TOMOS : 'Nawr 'te, y ford yn y canol. 'B'le ma'r ford? Dewch a
 hi mlaen. Dyna fe! Cadair fan yma - cadair fan yna -
 drws ar y dde - drws ar y chwith - i ddechre. Ble ma'
 Marged?
 WINNI : Dyma fi! (PAWB ARALL O'R GOLWG)
 W. TOMOS : Yn eistedd wrth y ford.
 WINNI : Fel hyn?
 W. TOMOS : Nage, nage, - nid y fenyw drws nesa' sy' 'ma. Ond y chi,
 - perchen y ty a'r cyfan sydd ynddo. Eisteddwch ar y
 sêd i gyd - nid ar ei hymyl. John y Gwas! Wyt ti'n
 barod?
 TWM : (YN DOD I'R GOLWG AR Y DDE) Ydw.
 W. TOMOS : Wyt ti wedi dysgu dy bart?
 TWM : Ydw. Ond, William Tomos, ma' 'na ran ohono sy'n swno'n
 od iawn.
 W. TOMOS : Yn od? Beth wyt ti'n feddwl?
 TWM : Wel.....y.....yn od, fel!
 W. TOMOS : O! Er pryd wyt ti yn gritig ar ddrama?

TWM : O.....y.....dim ond meddwl o'wn i , a.....

W. TOMOS : Gad di'r meddwl i fi, machgen i. Wyt ti wedi dysgu dy bart?

TWM : Ydw.

W. TOMOS : Ymlaen a thi, 'te. (MÆ TWM YN MYND O'R GOLWG) 'Nawr te, pawb yn barod? Marged yn eistedd wrth y ford!

TWM : (YN DOD I MEWN AC YN SEFYLL A SIARAD FEL ADRODDWR)
Agorir y drws. Daw John y Gwas i mewn. Dyn tua'r hanner cant yw John, ac yn ei law.....

W. TOMOS : Be..b..be' ddwedaist di?

TWM : Pam? Beth sy'?

W. TOMOS : Be' ddwedaist ti?

TWM : (MEWN LLAIS ANSICR) Agorir y drws. Daw John y.....

W. TOMOS : Y ~~meddwl~~ nefoedd fawr!

TWM : Ond mae e' yn y copi-bwc 'ma.

W. TOMOS : Beth sy' yn dy gopi-bwc di?

TWM : Fy-fy-fy mhart i.

W. TOMOS : (YN YMOLLWNG) Dy bart di? Ond y-y- beth alla' i dy alw di? Nid dy bart di yw hwnna.

TWM : Part pwy yw e', te. Fi sy'n siarad gynta'.

W. TOMOS : Siarad gynta..... Ond y - O'r arswyd! beth alla'i dy alw di? Nid part yw hwnna!

TWM : O? Beth yw e' te?

W. TOMOS : Stage directions! Stage directions!

TWM : O! 'rwy'n gweld. Sut rown i i wybod? Dyma'r tro cynta' i fi fod mewn drama.

W. TOMOS : Ie, a'r olaf. Cer tua thre a phaid a.....
Na, aros. 'Rwy wedi cael digon o drafferth yn barod i gasglu'r chwech ohonoch chi. Cer i dy le, a chofia, dwed dy bart, ac actia'r "stage directions".

TWM : Rown i'n meddwl 'i fod e'n swnio'n od.

W. TOMOS : Ti oedd yn od, y ff....ff....Ond brysia, neu fe fyddwn yma drwy'r nos. Wyt ti'n deall nawr?

TWM : Ydw.

W. TOMOS : Wel, ymlaen a thi, a thyrd i mewn eto.

TWM : Reit (MYND)

W. TOMOS : /A Marged, eisteddwch yn gartrefol, da chi!

WINNI : Ond , Mr. Tomos, 'falle y bydd i'n well imi wneud rhywbeth, hefyd.

W. TOMOS : Gwneud rhywbeth? Beth y'ch chi'n feddwl?

WINNI : Wel.....y..... gwneud rhywbeth wrth eistedd yma.

W. TOMOS : Gwneud beth?

WINNI : Wel.....y.....gwau, neu.....

W. TOMOS : O, ma' pawb yn gwau mewn drama Gymraeg. Fe fydd yn ychydig o newid i weld menyw yn eistedd yn llonydd. John!
(NID OES ATED) John!!

TWM : Mi fydda i na nawr.

W. TOMOS : Be' gynllw'n wyt ti wneud?

TWM : Ma' bys Dic Huws yn dost, ac ma'r bandage wedi.....

W. TOMOS : Ond nid gwas Dic Huws wyt ti.

TWM : Rwyf bron a gorffen.

W. TOMOS : A myn brain i, rwy innau bron a gorffen hefyd! Os nad wyt ti'n dod, 'rwy i'n mynd.

WINNI : Mynd, Mr. Tomos?

W. TOMOS : Ydw, mor wired a mod i'n sefyll fan yma. Rwyf wedi cael digon ar y ffolineb 'ma, a.....

WIL : (YN DOD O'R CHWITH) Nawr, nawr, William Tomos, nid felna.....

W. TOMOS : Ca' dyg geg, a cher nol i dy le! Rwy o ddifrif. Nid chwarae drama sy' 'ma, ond chware plant bach.

TWM : (YN DOD O'R DDE) Rwy'n barod nawr.

W. TOMOS : ~~O, wyt ti? Wel, ti elli aros i mi 'nawr (MAE'R LLEILL YN DOD I'R GOLWG O'R DDE A'R CHWITH) Ai dyma'r ffordd i wneud cyfiawnder a'r ddrama 'ma? Mae chware drama yn gelygu gwaith, a gwaith caled, ac os nad i chi yn barod i weithio mi a i oddi yma i rywle lle y caiff y ddrama chware teg!~~

WINNI : Ond, Mr. Tomos.....

W. TOMOS : Fi sy'n siarad nawr. Dyma rybudd i chi: os na 'dych chi'n gwella, rwy'n mynd. Fe wn am gwmni fydd yn falch ohonof!

WIL : William Tomos!

W. TOMOS : Rwy'n dweud y gwir.

TWM : Pwy y'n nhw?

W. TOMOS : Fy musnes i yw hynny, ond dyn nhw ddim can milltir oddi yma, a ma' 'na groese cynnes yn fy aros.

WIL : Wel, wrth gwrs, William Tomos, so 'dych chi am fynd.....

W. TOMOS : Pwy sy'n siarad am fynd? Rhoi rhybudd wnes i. 'nawr te, ydych chi'n addo gwella?
(DISTAWRWYDD A PHAWB YN LLEDCHWITH)

W. TOMOS : Wel?

LLEISLAU : (YN DAWEL) Ydym.

W. TOMOS : O'r gore. Ymlaen a ni, ond cofiwch, dim rhialtwch! John, i dy le, a dechre' eto. Marged, barod?

WINNI : Ydw. (PAWB OND WINNI YN MYND O'R GOLWG)

W. TOMOS : Nawr te.

TWM : (YN DOD I MEWN AC YN SEFYLL WRTH Y DRWS) Mistres.

WINNI : Ie.

TWM : Dyma lythyr.

WINNI : (YN DDIFATER) O, - llythyr.

W. TOMOS : O, llythyr? Yn enw popeth, Marged, sawl gwaith y dydd byddwch chi'n cael llythyr?

WINNI : B-beth y'ch chi'n feddwl?

W. TOMOS : Rhowch groeso i'r llythyr, ferch. Nid bil yw e. O! llythyr! Unwaith eto.

TWM : Mistres! Dyma lythyr!

W. TOMOS : Nid y ti - nid y ti - y - y. O! beth alla i dy alw di? Beth yw'r llythyr i ti? I Marged ma'r llythyr.

TWM : O, -yn-yn-dawel, iefe?

W. TOMOS : Ie, yn dawel. Bydd yn olreit. Cofia mai gwas wyt ti. Yn gweiddi felna. Nid 'i -'i gwr hi wyt ti.

TWM : Mistres.

WINNI : Ie.

TWM : Dyma lythyr.

WINNI : O! Llythyr!
 W. TOMOS : Dyna welliant.
 TWM : Pwy?
 W. TOMOS : (YN HURT) Pwy?
 TWM : Ie. Pwy sy'n well?
 W. TOMOS : Yr arswyd fawr! Cer ymlaen a'r ddrama.
 TWM : Gwnaf, gwnaf; ond byddwn yn falch cael clywed os ydwy'n gwella.
 W. TOMOS : Edrych yma. Dyma'r tro cynta i ti fod mewn drama.
 TWM : Ie.
 W. TOMOS : Gwna'n fawr o'r cyfle yma.
 TWM : Pam?
 W. TOMOS : Fe geidi weld pam!
 TWM : Pryd?
 W. TOMOS : Y nefoedd fawr! Glywsoch chi'r fath beth erioed. Pob tro rwy'n agor fy ngheg, ma' - ma' - ma' hwn yn gosod i droed ynddo! Cer 'nol i dy le, a dechre eto!
 (M/AE TWM YN MNND)
 TWM : Mistres.
 WINNI : Ie.
 TWM : Dyma lythyr.
 WINNI : O! Llythyr! Rwyf wedi aros ~~wy~~ wythnosau am hwn.
 TWM : (YN SYML) Wel, 'nawr ces i e.
 W. TOMOS : Beth ddwedais di?
 TWM : O.....Y.....Y.....
 W. TOMOS : Ydi hwnna yn dy gopi-bwc di?
 TWM : Nagyw, ond mae'n - mae'n joc go dda.
 W. TOMOS : O! joc, iefe? Be' sy' gan y ddrama i wneud a jokes? Dyna pam y mae'r ddrama Gymraeg mor wael ei safle heddiw; meddwl mai dim ond jokes sydd eisie! I'r cythraul a'r jokes! Beth sy' yn dy lyfr di?
 TWM : Wel, wel.
 W. TOMOS : Dwed e , te.
 TWM : Wel - wel.
 W. TOMOS : Nawr te, Marged.
 WINNI : O ble, Mr. Tomos?
 W. TOMOS : O'r "Wel, wel". Rho'r llythyr iddi, John.
 (TWM YN GWNEUD HYN)
 WINNI : Diolch, John, ond cofiwch, - dim gair am hyn - wrth neb.
 W. TOMOS : Robert Bifan, wyt ti'n barod?
 WIL : (O'R GOLWG) Ydw.
 W. TOMOS : Nawr, Marged.
 WINNI : John..... Gwrandewch!
 TWM : Ie, mistres, 'rwy'n gwrandeo.
 WINNI : (YN ISEL) Dewch yn nes, John.
 TWM : (YN NESU ATI YN ARAF) Reit, mistres.
 WINNI : Yn nes, John.
 TWM : Ie.....dyma.....fi

WINNI : (AR OL EDRYCH YN OFNUS AR Y DRWS AR Y CHWITH) Ma' gen
i rywbeth i'w ddweud.

TWM : Oes.....mae'n debyg.
(PAWB YN CHWERTHIN AC YN DOD I'R GOLWG TU OL)

W. TOMOS : Yn enw pob synnwyr, pam y chwerthin 'ma?
~~WIL~~ : Y joc, William Tomos! (CHWERTHIN ETO) Lled dda, wir;
ma' honna'n good; fe aiff hi fel fflam.

W. TOMOS : Ond-ond-pa joc? Wela i ddim joc.
(PAWB YN SOBRI)

WIL : Ond fe ddwedodd John.....

W. TOMOS : Fe ddwedodd, "Oes, mae'n debyg" - dyna i gyd. Mae'n glir
i bawb, mi obeithiaf, fod gan Marged rywbeth i'w ddweud,
ac mae John yn dweud, "Oes, mae'n debyg"! Os ydi hwnna'n
joc.....

WIL : O, sorry, - ni oedd yn cam syniad.

W. TOMOS : Diolch yn fawr. Nawr, ymlaen, a chofiwch hyn : fydd na
ddim jokes yn y ddrama hon.

~~WIL~~ : Reit, mae'n well inni wybod.
(PAWB YN MYND O'R GOLWG ETO, OND TWM A WINNI)

W. TOMOS : Unwaith eto, Marged. Bydd yn barod, Robert Bifan.

WINNI : Mae gen i rywbeth i'w ddweud.

TWM : Oes, mae'n debyg.

WINNI : John, rwyf yn anhapus. Rwy'n bwrriadu.....

WIL : (YN DOD I MEWN O'R CHWITH AC YN SIARAD YN DDRAMATIG) :
Ha!

W. TOMOS : Wel done, Robert! Unwaith eto.

WIL : Ha!

W. TOMOS : Ardderchog! Glyw di , John. Dyna'r ffordd i siarad!

TWM : Ond chi ddwedsoch fod yn rhaid i fi siarad yn \$sel.

W. TOMOS : Do, do, rwy'n gwybod, ond.....

TWM : Pam y'ch chi'n dal Wil i fyny fel patrwm nawr?

W. TOMOS : O, ca' dy geg! Mae'n bleser cael gafael ar fachgen fel
Robert 'na, a'i holl galon yn y gwaith, ac yn gwybod pob
gair o'i bart. Cer 'mlaen, Robert, machgen i - o'r
dechre eto.

WIL : Ha.....y.....(YN AROS)....y.....beth sy' nesa nawr? y.....
(PAWB YN CHWERTHIN)

W. TOMOS : Distawrwydd, os gwelwch yn dda!

WIL : Row'n i'n gwybod pob gair cyn gadael y ty, ond.....

W. TOMOS : Wrth gwrs, wrth gwrs, does na ddim syndod dy fod ti wedi
anghofio - yr holl ffys a rhialtwch sy' ma. Dyma'r
geiriau : "Ha. John, beth wyt ti....."

WIL : O, ie, dyna fe. Unwaith eto.

TWM : Dyna beth rwy i'n galw'n favourite.

W. TOMOS : O, favourite, ife? Wel , gwrando: fyddi di ddim yn
favourite gan neb, hyd yn oed gan dy fam. Robert -
ymlaen!

WIL : Ha! John, beth wyt ti'n wneud yma?

TWM : (YN FFLAT AC YN DDIYSTYR) Ond - Mr. - Bifan -

W. TOMOS : Beth ddwedaist di?

TWM : (YN SWRTH) Ond - Mr. Bifan - mae e' yn y copi hwc 'ma!

W. TOMOS : O, rwy't ti'n dechre pwti, wyt ti?

TWM : Pwti? Be y'ch chi'n reddwi?

W. TOMOS : Yn dweud : Ond - Mr. Bifan, felna. Rho ystyr i'r peth!

TWM : (YN WYLLT) Ond.....

W. TOMOS : Dyna well.

TWM : Beth sy'n well?

W. TOMOS : Yr "Ond" na.

TWM : Dwy i ddim yn dweud fy mhart nawr!

W. TOMOS : Be' gynllw'n wyt fi yn ddweud, te?

TWM : Rwyf am ddweud rywbeth wrthy ch!

W. TOMOS : Cer ymlaen a dy bart, a phaid a.....

TWM : (YN WYLLT ETO) Ond.....

W. TOMOS : Dyna fe.

TWM : (YN FWY GWYLLT) Ond.....

W. TOMOS : Ardderchog.

TWM : (YN COLLI EI DYMER) Nid y part sy' gen i - fi sy'n siarad nawr - fi - fi - fy hynan.

W. TOMOS : (YN HURT) Ti?

TWM : Ie - fi. Rwy am i chi wrando arna' i.

W. TOMOS : Ond rwy'n gwrandio arnat ti - rwy'n gorfod gwrandio! Dwed dy bart a gad dy....

TWM : (YN MYNNU CAEL DWEUD) Ond.....

W. TOMOS : Dyna fe - fe wnaiff y tro; ond cer ymlaen, does na neb yma yn drwm 'i glyw....Robert!

WIL : John, beth wyt ti'n wneud yma?

TWM : Dim, Mr. Bifan.

W. TOMOS : Ma 'na air cyn y "dim" 'na.

TWM : Nag oes.

W. TOMOS : Oes.

TWM : Nag oes.

W. TOMOS : Pwy sgrifennodd y ddrama 'ma fi neu ti? Ble mae dy gopi-bwc di?

TWM : (YN TYNNU ALLAN EI LYFR) Dyma fe. A-a-a-a-a (YN CHWILIO AM Y LLE) a dyma'r part. Dim-a dim ond Dim.

W. TOMOS : (A'I FYS AR EI LYFR EI HUN) Edrych eto.

TWM : (YN WYLLT) Rwy wedi edrych. Drychwch chi.

W. TOMOS : Beth am y bracet 'na?

TWM : (YN HURT) Bracet?

W. TOMOS : Ie - ar ol y gair "John"

TWM : Ond stage directions yw hwnna.

W. TOMOS : Beth mae'n ddweud?

TWM : (YN EDRYCH) Yn-yn-ddiniwedDwy i ddim i ddweud hwnna.

W. TOMOS : Eitha reit. Ond rhaid iti actio 'fe.

TWM : O..... Sut?

W. TOMOS : Defnyddia dy wyneb. Dangos y peth! Facial expression - dyna be' sydd eisie!

TWM : (A'I LAW YN ~~EX~~ ESGYN YN ARAF I'W WYNEB) O?

W. TOMOS : Rhywbeth fel hyn, nawr? Gwel.

TWM : O.....ie.....tynnu gwynebau, ife?

W. TOMOS : Nage, nage, nage! Fe all y wyneb ddangos y cyfan. Edrych ar yr expression nawr.....Weldi e? Dyma fe eto iti..... Ges di e? Beth oedd hwnna'n ddangos?

TWM : (YN AMHEUS) Wn i ddim yn iawn.....

W. TOMOS : Edrych eto.....

TWM : O - rwy'n gweld yn awr.

W. TOMOS : Beth yw e?

TWM : Poen.

W. TOMOS : Ardderchog! Rwy't ti'n gwella!

TWM : Yn y stumog!

W. TOMOS : (YN RHOI FYNY) O, cer 'mlaen a dy bart. Gad dy wyneb fel y mae e. Unwaith eto, Robert.

WIL : John, beth wyt ti'n wneud yma?

TWM : (YN SWRTH) Dim, Mr. Bifan.

WIL : (YN GAS) Fel arfer, John!

TWM : Ha!.....Ha!.....Ha!

W. TOMOS : Hei! Chwerthin sy'n eisieu fan 'na - nid asthma.

~~W. TOMOS~~ TWM : O, ma' 'na asthma arna i nawr, oes e?

W. TOMOS : Wel, chwerthin, te!

TWM : (YN YMOLLWNG) Sut galla i chwerthin a chithe yn fy mhen i drwy'r nos? Cadwch eich drama; rwy wedi cael llond bola. Ma' gen i waith i'w wneud yn y ty. Des i yma heno pan y dylwn fod wedi aros i drin y ffowls. Ma' 'na dri ohonyn nhw yn dost ac yn hanner marw, ac yn.....

W. TOMOS : Be' sy'n bod arnyn' nhw?

TWM : Wn i ddim. Ma' nhw'n ~~mhew~~ methu sefyll. Gorwedd ma' nhw o hyd, ac yn.....

W. TOMOS : Beth wyt ti'n rhoi iddyn nhw?

TWM : O, tipyn o bopeth.

W. TOMOS : Tipyn o bopeth? Gwarchod pawb! Be' wyt ti'n ddisgwyl ond trwbwl os wyt ti'n.....

TWM : Odd rwyf wedi codi ffowls am bum mlyn....

W. TOMOS : Nagwyt. Ma' hanner ffowls y wlad 'ma yn codi'u hunain. Oedd 'na deisen ar ol ddydd Sul?

TWM : Oedd.

W. TOMOS : A dyna be' roes di iddyn' nhw?

TWM : Wel, ie.

W. TOMOS : Row'n i'n meddwl. Gormod o lard. Gormod o siwgr.

TWM : Ond, William Tomos.....

W. TOMOS : Gwranddo. Heno, rho lonydd iddyn nhw.

TWM : Ie?

W. TOMOS : Fory, gwna'r un peth. Mewn diwrnod fe fydd popeth yn iawn.

TWM : Y'ch chi'n credu hynny, wir?

W. TOMOS : Credu? Rwy'n gwybod, 'machgen i. Cer ymlaen a dy bart.

TWM : Reit. Ble o'wn i?

W. TOMOS : Y chwerthin.

TWM : (YN CHWERTHIN YN IACHUS) Ha, ha, ha!
(Y MAE DRWS Y FESTRI YN CAEL EI YSGWYD YN GRYP)

W. TOMOS : Beth gynllw'n sy'n bed nawr?

TWM : Ma' 'na rywun wrth y drws.
W. TOMOS : Paid a dweud.
(SWN Y DRWS ETO)

WIL : Gwell agor y drws, William Tomos. Falle bod y mater yn bwysig.
(Y LLEILL YN DOD I'R GOLWG TU OL)

W. TOMOS : O, wrth gwrs - ma popeth yn fwy pwysig na'r ddrama.
(SWN Y DRWS. YSGWYD OFNADWY)

W. TOMOS : Ymlaen a ni. Fe fydd e'n siwr o flino cyn bo hir.
TWM : Ond fydd na ddim shap ar y practis yng nghanol y swm 'ma.
W. TOMOS : Does fawr o siap arno nawr.
(SWN DRWS. RHAID EI FOD BRON A SYRTHIO)

W. TOMOS : Rarswyd fawr! Pwy sy' 'na?
LLAIS MENYW : Fi!

W. TOMOS : Ie, rwy'n gwybod. Ond pwy y'ch chi?
Y LLAIS : Fe gewch chi weld pwy wy i pan ddo' i i mewn. Agorwch y drws 'ma.
WIL : Rwy'n adnabod y llais. Gwraig.....
Y LLAIS : Agorwch y drws 'ma.
WIL : Ie, dyna hi. Dic - dyna Jane!
DIC : (YN ANSICR) Ie, rwy'n gwybod. Be' sy'n bod, wn i? Gwell imi fynd i.....
W. TOMOS : Aros di fan 'na.
DIC : Ond, Mr. Tomos.....
W. TOMOS : Fe all rhywun arall fynd.
DIC : Diolch yn fawr!
W. TOMOS : Ewch, - un o chi tu ol 'na.
Y LLAIS : Agorwch y drws 'ma.
HARRI : (O'R GOLWG) Olreit, olreit!
DIC : Be' sy', wn i?
WIL : Dim, Dic bach, - dim.
(SWN Y DRWS YN AGOR)

Y LLAIS : (TU FEWN I'R FESTRI) Ydi Dic ni yma?
DIC : Ydw, Jane. Be' sy'n bod?
JANE : (YN DOD I MEWN) Ble ma allwedd y drws?
DIC : (YN HURT) Allwedd - y drws?
JANE : Ie, - allwedd y drws.
W. TOMOS : Wel, ar fy ngair! Yr holl ffys hyn am allwedd drws!
JANE : O - ffys, iefe? Sut carech chi fod tuallan ar noson fel hon?
DIC : Ond, Jane, dyw hi ddim gen i. Mae hi yn.....
JANE : Nagyw - dyw hi ddim drws nesa! Anghofiaist ei gadael yno.
DIC : (YN CHWILIO EI BOCEDI) Wel, dyw hi ddim gen i, - nagyw - nagyw - nag..... (YN FFLAT)Y ydi..... dyma hi.
JANE : (MEWN TYMER) Ie.....dyma hi! A fi a Bili Bach yn sythu tuallan tra 'rwy't ti'n gwneud ffwl o dy hunan fan yma!
W. TOMOS : O?.....Felly?Dyna'ch syniad am waith y ddrama, ife?
JANE : Nage, nid i gyd! Dere a'r allwedd na i fi!

W. TOMOS : Richard Hughes, - aros ble'r rwy'ti ti
 DIC : Ond, Mr. Tomos..... !
 JANE : A phwy y'ch chi, William Tomos, i roi ordors i Dic ni?
 W. TOMOS : (YN FAWREDDOG) Ar y llwyfan yna, fi yw y....y....fi yw
 cadben y llong!..... Rho'r allwedd i mi..... Diolch!...
 ...Dyma hi, Mrs. Huws, a nawr, Nos da!
 JANE : Nos da, iefe? Sut nos ga'i i yn y ty wrth y'm hunan?
 Dic, paid a bod yn hir (YN DECHRAU MYND)
 DIC : Ond, Jane.....
 JANE : Paid a bod yn hir!
 W. TOMOS : Nawr, nawr, Mrs. Huws.....
 JANE : Dyna ddigon o'ch interference chi, William Tomos. Falle
 mai chi sydd gadben yma, ond fi yw'r first mate yn y ty
 'na. Dic, paid a bod yn hir, neu fe fydd yr allwedd gen
 - ar y llofft!
 (MAE JANE YN MYND O'R GOLWG. EDRYCH PAWB AR EI HOL. SAIF
 PAWB YN DAWEL NES CLYWED Y DRWS YN CAU).
 W. TOMOS : Cauwch y drws yn dynn!
 WIL : Be' sy'n bod ar Jane, Heno, Dic?
 DIC : O, mae hi wedi clywed mai sponar Miss. Lewis wy' i yn hon.
 W. TOMOS : Nawr, dewch ymlaen, heb oedi! Ma'r amser yn mynd!
 WINNI : A rhaid i Dic fynd adre'n gynnar heno? (Y LLEILL YN
 CHWERTHIN)
 W. TOMOS : Dyna ddigon - dyna ddigon. O'r dechre eto.
 (TAWELWCH AR UNWAITH)
 TWM : B-beth? O'r dechre eto?
 W. TOMOS : Ie, o'r dechre eto. Pam?
 WINNI : Ond, Mr. Tomos, fe fyddwn yma drwy'r nos!
 TWM : A beth am Mrs. Huws?
 W. TOMOS : Beth sy gan Mrs. Huws i wneud a'r practis yma? Dewch!
 WIL : Ond ma' Dic.....
 W. TOMOS : Fe gaiff Richard Huws noson o gwsg gan i os bydd 'i wraig
 e' wedi.....
 (Y MAE DRWS Y FESTRI YN CAEL EI YSGWYD ETO)
 W. TOMOS : (YN COLLI AMYNEDD) Wel, wel! Dyna'r drws 'na eto. Ma'r
 lle 'ma'n fwy tebyg i farchnad na festri!
 WIL : Falle bod Mrs. Huws wedi dod 'nol.
 W. TOMOS : Beth? Mrs. Huws! Ewch - un o chi - agorwch y drws!
 (SWN Y DRWS ETO)
 W. TOMOS : Brysiwch, brysiwch. Olreit, Mrs. Huws, - ma nhw'n dod.
 (EDRYCH PAWB I GYFEIRIAD Y DRWS. CLYWIR Y DRWS YN AGOR)
 W. TOMOS : (YN DAWEL. Pwy sy' 'na?
 WIL : Wn i ddim. Mae e' yn y tywyllwch. Ma' 'na ddau.....
 W. TOMOS : O!
 WIL : (YN ARAF) Rwy'n credu mai - ie - dyna fe- Jacob yw un.
 W. TOMOS : Jacob? Be' gynllw'n sy' eisie ar y creadur yna nawr?
 Pwy yw'r llall?
 WIL : Dwn i ddim. (CLYWIR SWN TRUED)
 (DAW JACOB I MEWN, AC AR EI OL DYN YN CARIO BAG BACH)

JACOB : (YN CROESI'R LLWYFAN) Ewch chi 'mlaen - peidiwch a'n hidio ni.

W. TOMOS : Pam? Beth y'ch chi am wneud?

JACOB : Pwy? Fi? Nid fi sy'n mynd i'w wneud e - ond fe' 'ma.

W. TOMOS : Gwneud beth.

JACOB : Tiwnio'r piano.

W. TOMOS : (WEDI COLLI EI ANADL) T...t...tiwnio'r.....piano!
(YN TROI YN SYDYN TUAG AT Y DYN A'R BAG) Ond y dyn ofnadwy. Ma' hyn yn warthus!

(YN AROS AM FOD HWNNW YN GWENU YN HAPUS ARNO)

JACOB : Fyddwch chi ddim scrapyn gwell o siarad a fe.

W. TOMOS : Ydi e'n fyddar?

JACOB : Nagyw - Sais yw e'. You go on, Mr. Isaac. The piano is over there. (YN DANGOS)

W. TOMOS : Ond, Jacob, rym ni'n cael practis drama.

JACOB : Wnaiff hynny fawr o wahaniaeth i Mr. Isaac. Mae e'n gyfarwydd a swm. Go on, Mr. Isaacs. I know you are in a hurry.

(MAE MR. ISAACS YN CYDSYNIO AC YN MYND)

W. TOMOS : Ond beth amdanom ni?

JACOB : Beth y'ch chi'n feddwl?

W. TOMOS : Rym ni'n cael practis drama.

JACOB : Ydych - ydych - ewch 'mlaen ag e.

W. TOMOS : Oedd yn rhaid i chi ddod a hwn yma heno?

JACOB : Nid y fi ddaeth ag e' yma. Fe ddaeth i'n ty ni a dweud bod Samuel Morgan, Arweinydd y Gan, wedi'i ddanfôn e i diwnio'r piano. Siaradwch chi a Samuel Mo.....

W. TOMOS : Ydi hi'n bosibl cynnal practis fan yma tra bydd e'n pwno un nodyn tragwyddol ar yr offeryn 'na?

JACOB : Be' wn i? Ond nid brass band yw e. Un nodyn ar y tro - dyna i gyd.

(MAE MR. ISAACS YN TARO TANT AR OL TANT, YN GRYF IAWN)

JACOB : (AR UNWAITH)..... ac ambell gord yn awr ac yn y man.

W. TOMOS : Cord! Ambell gord!! (MR. ISACS YN CHWARAE AR HYD Y PIANO) Clywch arno. Rarswyd fawr. Ma' hyn yn annioddefol. Rwy'n mynd.

LLEISIAU : William Tomos

W. TOMOS : (YN WALLGOF AC YN SIARAD YN GYFLYM) Ydw! Rwy'n mynd. Rwy wedi cael digon ar y lle 'ma. Doedd na ddim shap ar y practis o'r dechre; ond ma'r tiwnio ma wedi gosod y cap arni. Y'ch chi'n credu fy mod i'n mynd i aros yma a gweld fy nrama i - plentyn fy nychymyg - yn cael ei diystyru fel yma? Na wnaf! Tra bo gennyf nerth i gerdded allan. Does 'na ddim parch i ddrama yn y lle hwn. Ma' popeth yn fwy pwysig na'r ddrama. Ond fe wn i am le fydd yn falch o'r cyfle i chwarae fy nrama i - lle y ceir pobl a wyr ystyr y gair talent. (TRWY EI DDANNEDD) Ac os bydd rhaid tiwnio'r piano, ma' ganddynt ddigon o sens i wneud a' pan fydd na neb yno i'w glywed. (YN TROI YN SYDYN I FYND)

WIL : Ond William Tomos, ble ych chi'n mynd?

W. TOMOS : Mynd? Rwy'n myndi Gaersalem. Nos da!!

(YN MYND. SAIF PAWB AR Y LLWYFAN YN DAWEL, GAN EDRYCH AR EI OL. YNA CLYWIR Y DRWS Y CAU. MAE PAWB YN TROI YN DDIFLAS)

WIL : Wel, wel, dyma gawl!
 TWM : Traed moch, myn hyfryd i. Dyma chi wedi 'i gwneud hi'n nawr, Jacob.
 JACOB : Pwy?.....Fi? Wnes i ddim.
 WINNI : Pa eisieu i chi ddod a'r tiwner yma heno?
 JACOB : Ond nid y fi ddaeth ag e. Samuel Morgan, arweinydd y....
 WIL : O, peidiwch a dechre ar y peth eto. Ma' Wiliam Tomos wedi mynd!
 (SAIF POB YN YN DAWEL FE PE YN OFNI DANGOS EI DEIMLADAU, OND Y MAE'R ACHLYSUR YN ORMOD I TWM. DAW GWEN I'W WYNED AC YNA TYRR ALLAN I CHWERTHIN. Y MAE PAWB YN CANLYN)
 DIC : Ie, ie - ond beth am y dyfodol?
 WINNI : Dyma gyfle i ddewis drama dda - a dyn a²helpo Caersalem. (PAWB YN CYDSYNIO)
 WIL : Hanner munud! Fe fydd yn rhaid talu am chware drama arall.
 PAWB : O - O
 WIL : Nid oedd Wiliam Tomos yn sael dimai goch am eic ddrama.
 TWM : Ma' pawb arall yn gorfod talu am chware drama. Pam na allwn ni?
 PAWB : Eitha' reit, etc.
 TWM : Beth am gael pwyllgor? (PAWB YN CYDSYNIO) Tynnwch y set 'na mlaen at y tan. (LLAWER O FFWDANN) Rwy'n cynnig Jacob i fod yn gadeirydd.
 (PAWB YN HAPUS; LAWER O FFWDAN, AC ENW JACOB AR WEFUS PAWB) (ERBYN HYN Y MAE Y SET O FLAEN Y TAN. PAWB OND JACOB YN EISTEDD. SAIF JACOB A'I GEFN TUAG AT Y TAN YN WYNEDU Y CYFARFOD)
 TWM : Dewid y ddrama - dyna'r peth cynta. (PAWB YN CYDSYNIO)
 JACOB : Hanner munud, 'nawr. Hanner munud. Cofiwch mai fi yw'r cadeirydd! (TAWELWCH, OND Y MAE'R TIWNWR YN GWEITHIO'N GALED).....Mr. Isaacs, stop your old racket with that old piano for a minute!.... Dyna welliant. 'Nawr te. Mae'n debyg fod rhaid talu am chwarae drama. (PAWB YN CYDSYNIO) Wel, peidiwch a gofidio am hynny.
 PAWB : (MEWN SYNDOD) O!
 JACOB : Mi setla i am y talu! (SYNDOD MAWR)
 TWM : (YN NEIDIO I'W DRAED) Rwy'n cynnig pleidlais o ddiolchgarwch i'r brawd Jacob Williams am ei garedigrwydd. (PAWB YN CYDSYNIO)
 WINNI : A 'nawr - y ddrama!
 JACOB : Mi ddo i at hwnna 'nawr. 'Rhyw chwe mis yn ol mi sgrifennais i ddrama fy hun.....
 PAWB : (AR EU TRAED) Beth!
 JACOB : Ac mae'n grand! "Y Mab Afradlon!"
 W. TOMOS : (YN SEFYLL AR Y DDE) 'Rwyf wedi dod nol!
 (MAE PAWB OND JACOB YN MYND YN GYFLYM ATO AC YN CRIO'N HAPUS - "William Tomos". Saif JACOB, DRUAN WRTH EI HUN, O FLAEN Y TAN)
 W. TOMOS : Wyddoch chi pwy sy' tuallan? Samuel Morgan, Arweinydd y Gan! Yn cerdded yn ol ac ymlaen. Ac i beth ddwedwch chi - i beth? Mae'n aros i ngweld i'n cerdded allan. Welwch chi'r gêm? Welwch chi'r tric? Ond fe all gerdded nol a mlaen drwy'r nos - 'rwy'n aros!
 JACOB : Mr. Isaac, you can start again now. (SWN Y PIANO)

W. TOMOS : (YN SYMUD I GANOL Y LLWYFAN) Gall, gall. Fe all chware
oratorïo os y mynn e'! (YN TROI AT Y LLEILL) O'r
dechre eto! Marged yn eistedd wrth y ford!

(AR UNWAITH TRY Y CHWARAEWYR I FYND ALLAN. A PAWB O'R
GOLWG, OND MARGED A WILLIAM TOMOS. AM ENNYD Y MAE
DISTAWRWYDD. YN SYDYN DAW TWM I'R GOLWG AR Y DDE)

TWM : (WEDI ANGHOFIO ÆOPETH) Agorir y drws, daw John y Gwas
i mewn.

W. TOMOS : Yr arswyd fawr! (YN EISTEDD A'I GALON WEDI TORRI)
(YNA DISGYN Y LLEN YN GYFLYM).
